

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 8fed Hydref, 2018, yn Neuadd Goffa, Sarn, o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cyngorydd Glenys Williams (Cadeirydd)
 Y Cyngorydd Glyn Roberts (Is-Gadeirydd)
 Y Cyngorwyr Gwenan Griffith, Dylan Parry Jones, Michael Strain, Carys E. Williams, Siôn Williams
 Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Ifor Owen
 Y Cyngorydd Gareth Williams (Y Cyngorydd Sir)

48. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

49. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant personol.

50. CADARNHAU COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 10fed Medi, 2018. (Cynigwyd gan Y Cyngorydd Gwenan Griffith ac eilwyd gan y Cyngorydd Dylan Parry Jones).

Materion yn Codi**(a) Eitem 41 – Materion Ffyrdd – cymal 2 – Arwydd Eglwys Bryncroes**

Cyflwynwyd cadarnhad dderbyniwyd gan Y Cyngorydd Gareth Williams oddi wrth Martin Daniel Williams, Cynorthwydd Technegol, Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd, fod "y prisiau isod yn cynnwys gosod yr arwyddion" sef
 "Opswn 1 – arwydd ar gyffordd ffordd fawr yn unig - £250.
 Opswn 2 – arwydd ychwanegol ym Mryncroes £650."
 Nododd y Swyddog hefyd mai'r "postyn safle bws fydd angen cael ei ddefnyddio".
 Dywedodd aelod ei fod yn credu fod yr arwydd bws wedi cael ei symud o'r safle.

Penderfynwyd symud ymlaen i osod arwydd ar y gyffordd yn unig am £250, ond i dynnu sylw nad oedd arwydd bws ar y safle bellach (hyn yn dilyn archwilio'r safle yn gyntaf).

Gwneud ymholiadau hefyd gyda'r Swyddog a fyddai modd cynnwys cyfeiriad ar Ffynnon Fair ar yr un arwydd.

(b) Eitem 41 – Materion Ffyrdd – cymal 3 – Biniau Halen

Cyflwynwyd atebiad Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol (dros dro), Cyngor Gwynedd, y byddai'n "trefnu fod y ddau fin (rhif 22 ac 18) yn cael eu llenwi" ac fod y cais am gael symud bin 26 wedi cael ei anfon ymlaen i'r Peiriannydd Ardal.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

51. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Cyflwynwyd cais C18/0859/32/LL – adeiladu estyniad i'r ty a modurdy tri drws yn Bryn Cynan, Neigwl, Botwnnog.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

52. **MATERION FFYRDD**

Penderfynwyd anfon at Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn tynnu sylw at y twll dwfn sydd wedi datblygu dros y ffordd i Gapel Bethel, Bryncroes.

Nodwyd fod gwaith agor ffos ar Lon Palmant a newid colofanau golau stryd yn Sarn wedi ei raglennu ar gyfer mis Hydref, 2018.

53. **MATERION IECHYD**

Nid oedd unrhyw fater i law.

54. **YnNI LLYN**

Cyflwynwyd diweddariad ar y Prosiect YnNi Llyn am fis Medi, 2018 – copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

55. **AWDURDOD I DALU**

Nid oedd unrhyw daliad yn ddyledus.

56. **ARCHWILIO'R CYFRIFON**

Cyflwynwyd y BDO yn cadarnhau “ar sail ein hadolygiad, yn ein barn ni, mae'r wybodaeth yn y Ffurflen Flynyddol yn cydymffurfio ag arferion priodol ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i'n sylw sy'n peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.” Yn ychwanegol 'roedd adroddiad ynghlwm wrth y ffurflen yn argymhell i'r Cyngor eu hystyried wrth weithredu'r cyfrifon. (Copi wedi ei anfon at bob aelod gyda'r rhaglen).

Penderfynwyd

- (a) Derbyn adroddiad y BDO ac fod Is-bwyllgor i drafod yr argymhellion a dwyn adroddiad yn ôl i'r Cyngor.
- (b) Awdurdodi'r Cadeirydd i arwyddo “Cymeradwyaeth y Cyngor” ar y ffurflen flynyddol.

57. **PA WASANAETHAU SY’N BWYSIG I CHI? – AROLWG CYHOEDDUS HYDREF, 2018**

Cyflwynwyd llythyr Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu Gwynedd ynglyn a’r uchod. Yn y llythyr rhoddodd y Swyddog opsiynau ar sut i gyflwyno sylwadau sef:

Anfon adborth neu sylwadau i Eichbarn@gwynedd.llyw.cymru
Llenwi holiadur ar-lein www.gwynedd.llyw.cymru/blaenoriaethau
Llenwi a dychwelyd holiadur papur – rhain ar gael drwy ffonio 01286 679339 neu e-bost Eichbarn@gwynedd.llyw.cymru

Penderfynwyd peidio anfon sylwadau ar ran y Cyngor ond yn hytrach fod pob aelod oedd yn dymuno gwneud hynny i anfon eu sylwadau.

58. **YMWELD A MEDDYGFA RHYDBACH, BOTWNNOG**

Nododd y Clarc ei bod mewn cysylltiad a Mr. Dave Shaw, Rheolwr Meddygfa Rhydbach, Botwnnog, ynglyn a threfnu ymweliad er trafod materion sy’n peri gofid i’r trigolion.

Penderfynwyd nodi’r adroddiad.

59. **YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL**

Y ddogfen uchod yn cael ei chylchredeg ymysg yr aelodau.